**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 31ain Ionawr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cytuno ar ymateb i ddogfen ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad sef *'Darparu indemniadau i aelodau a swyddogion o awdurdodau perthnasol'* |

1. **CEFNDIR**

1.1 Yn Rhagfyr 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ddogfen ymgynghorol *'Darparu indemniadau i aelodau a swyddogion o awdurdodau perthnasol'*. Mae copi o'r ddogfen ynghlwm fel *'Atodiad A'*.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn amserol oherwydd lleisiwyd pryder o fewn yr Awdurdod yn ystod y misoedd diweddar am y peryglon y mae'r aelodau a'r swyddogion yn agored iddynt, neu y gallent fod yn agored iddynt, wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran yr Awdurdod.

2. **GWYBODAETH**

2.1 Mae'r Prif Swyddog Tân, ar y cyd â'r Clerc a'r Trysorydd, wedi llunio ymateb drafft i'r ddogfen ar gyfer ystyriaeth yr aelodau. Yn ddibynnol ar unrhyw newidiadau y mae'r Panel yn eu gwneud, y bwriad yw anfon yr ymateb i'r Cynulliad erbyn y dyddiad cau sef 1af Mawrth 2005. Mae'r drafft ynghlwm fel *'Atodiad B'*.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Bod yr aelodau'n nodi cyhoeddi y ddogfen ymgynghorol, a'r ymateb drafft a baratowyd gan y Prif Swyddog Tân, y Clerc a'r Trysorydd.

3.2 Bod yr aelodau'n ystyried unrhyw newidiadau i'r drafft yr hoffent eu gwneud cyn ei anfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru.